Adroddiad ar

# Ysgol Pontsenni

Pontsenni
AberhondduPowys
LD3 8RS

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2025
gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Pontsenni

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Pontsenni |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Ysgol dwy ffrwd gyda mwyafrif y disgyblion yn derbyn addysg drwy'r ffrwd Gymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 107 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 93 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 0 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 7.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 10.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 17.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 08/04/2024 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 04/07/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 20/01/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae pennaeth Ysgol Pontsenni yn arweinydd egnïol a phwrpasol sydd, mewn byr amser, wedi llwyddo i greu cyfeiriad strategol clir i ddatblygiadau'r ysgol. Mae staff a rhanddeiliaid yn cydweithio'n llwyddiannus i wireddu gweledigaeth gytûn sy'n canolbwyntio ar waith tîm a chreu cymuned ofalgar. Mae'r pennaeth yn hyrwyddo diwylliant agored ac yn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr sy'n cyfrannu'n gadarn at eu datblygiad personol.

Mae'r broses hunanwerthuso yn rhoi dealltwriaeth glir o'r sefyllfa bresennol a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella'r ysgol. Yn gyffredinol, mae athrawon yn defnyddio dulliau addysgu effeithiol ac yn cynnwys syniadau'r disgyblion wrth gynllunio gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Er hyn, nid yw staff yn darparu cwricwlwm sy'n sicrhau datblygiad priodol o ran dealltwriaeth a medrau'r disgyblion ym mhob agwedd o'u profiadau dysgu.

Mae ethos Cymreig cryf yn rhan annatod o'r ysgol, gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu hyder cynyddol yn eu gallu i siarad Cymraeg yn y ddwy ffrwd. Mae'r staff yn defnyddio dulliau dysgu ymarferol i sicrhau dealltwriaeth o batrymau iaith ac yn darparu gweithgareddau sy'n cefnogi'r disgyblion i werthfawrogi eu milltir sgwâr a'r byd ehangach.

Ar y cyfan, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Serch hyn, nid yw disgwyliadau athrawon bob amser yn ddigon uchel ar draws yr ysgol. O ganlyniad, nid yw pob disgybl yn cyflawni hyd orau ei allu bob tro.

Mae staff yn rhoi blaenoriaeth uchel i gefnogi lles disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gwerthfawrogi eu bod cael cefnogaeth effeithiol sy'n meithrin eu hyder a'u hunan-barch yn dda. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth teilwredig sy'n hwyluso eu cynhwysiant yn y gymuned ddysgu. Mae gan yr holl staff ddisgwyliadau uchel o ran cwrteisi gan y disgyblion sy'n cyfrannu'n gadarn at eu hymddygiad ardderchog ar draws yr ysgol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Codi disgwyliadau athrawon i gefnogi disgyblion i gyflawni hyd orau eu gallu

A2 Datblygu cwricwlwm sy'n cefnogi pob disgybl i gyfoethogi eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau, yn enwedig ysgrifennu, yn adeiladol ar draws y ddwy ffrwd

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae arweinyddiaeth egnïol a phwrpasol y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiadau'r ysgol. Mewn cyfnod byr ers ei phenodiad, mae wedi llwyddo i dynnu cymuned yr ysgol at ei gilydd a chreu ymdeimlad cryf o undod. Mae'r rhanddeiliaid wedi sefydlu gweledigaeth gytûn sy'n seiliedig ar bwysigrwydd gwaith tîm a chreu cymuned ofalgar sy'n annog y disgyblion i gyfrannu'n gyson i'w dysgu a'u cymdeithas leol.

Mewn byr amser, mae'r pennaeth wedi sefydlu prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn fedrus. O ganlyniad, mae ganddi adnabyddiaeth gadarn o sefyllfa bresennol yr ysgol ac mae'n ymwybodol o'r hyn sydd angen ei gyflawni er mwyn gwella. Mae'r staff yn gwerthfawrogi cyfleoedd i graffu ar waith disgyblion ar draws yr ysgol ac yn barod i gefnogi a dysgu oddi wrth ei gilydd. At ei gilydd, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y prosesau hunanwerthuso ar gynnydd a chyflawniad y disgyblion.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun, y staff a'r disgyblion. Mae'n sicrhau cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol sy'n bodloni anghenion datblygiad personol yr athrawon a'r staff ategol. Mae'r staff cyfan yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu a'u datblygiad personol.

Caiff y pennaeth ei chefnogi gan dîm ymroddgar o athrawon sy'n awyddus i gydweithio fel tîm a datblygu eu dealltwriaeth o'u rolau â'u cyfrifoldebau. Mae'r holl randdeiliaid yn cyd-dynnu'n frwdfrydig ac yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i drafod eu syniadau a'u hawgrymiadau yn agored ac onest. Mae'r pennaeth wedi sefydlu diwylliant agored lle mae athrawon yn barod i siarad a rhannu profiadau. Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar, lle mae staff a disgyblion yn dangos cwrteisi a pharch cyson at ei gilydd.

Mae staff yn darparu ar gyfer meithrin a chefnogi lles disgyblion yn effeithiol. Ym mron pob achos, mae staff yn darparu cymorth ac anogaeth gynhaliol i ddisgyblion. Mae hyn yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu hyder a hunan-barch cyson ac agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu, bywyd yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae'r addasiadau diweddar i'r gefnogaeth a roddir i ddisgyblion ag anawsterau dysgu eisoes wedi dylanwadu'n dda ar eu gallu i fod yn aelodau llawn o'r gymuned ddysgu. Mae'r perthnasoedd cadarn hyn yn golygu bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod â phwy i siarad os oes ganddynt bryder. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ran

cwrteisi a gofal am ddisgyblion. Mae hyn yn rhan annatod o'r ddarpariaeth gynhwysol, sydd yn ei dro yn meithrin a datblygu disgyblion sy'n arddangos ymddygiad ardderchog.

Mae arddel Cymreictod a balchder y disgyblion tuag at eu cynefin a'u treftadaeth Gymreig yn nodwedd gref yn nwy ffrwd ddysgu'r ysgol. Law yn llaw ag ethos Cymreig yr ysgol, mae'r disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu i fod yn siaradwyr sy'n ymfalchïo yn eu gallu i siarad Cymraeg. Mae staff yn defnyddio cyfuniad o ddulliau addysgu a dysgu i sefydlu patrymau iaith i'r disgyblion yn rheolaidd, ynghyd â gweithredu ymarferion llafar hwyliog er mwyn gwneud y dysgu'n ddiddorol a rhagweithiol. O ganlyniad, yn y ffrwd Gymraeg, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn gynyddol hyderus ac yn defnyddio'r dafodiaith leol gan ddangos balchder yn eu medrau dwyieithog.

Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm sy'n datblygu'n briodol. Maent yn darparu gweithgareddau sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u milltir sgwâr a'r byd ehangach yn effeithiol. Mae athrawon yn cynnwys syniadau'r disgyblion yn gyson wrth gynllunio gweithgareddau dysgu sy'n ennyn a chynnal diddordeb y disgyblion a'u perchnogaeth o'r themâu tymhorol. Mae athrawon yn dechrau defnyddio'r wybodaeth am gynnydd disgyblion yn briodol er mwyn eu cefnogi i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu cwricwlwm sy'n cefnogi'r disgyblion i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau llythrennedd a rhifedd yn adeiladol mewn ystod eang o brofiadau dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau darllen ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau dros amser. O oedran cynnar, mae llawer yn datblygu sylfaen gadarn o lythrennau a seiniau yn gyflym, ac yn defnyddio hyn i ddarllen geiriau syml sydd yn ei dro yn eu cefnogi i ddatblygu eu hyder wrth ddarllen. Mae llawer o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn datblygu eu dealltwriaeth o nodweddion testunau ac yn mynegi barn yn hyderus. Yn gyffredinol, yn y ffrwd Saesneg, nid yw staff yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion adeiladu ar eu medrau Cymraeg yn gynyddol dros amser.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y ddwy ffrwd yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu mewn gweithgareddau iaith ac ar draws y meysydd dysgu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn ffurfio llythrennau, geiriau a chymalau syml yn llwyddiannus. Wrth i'r disgyblion symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn trefnu eu hysgrifennu yn gywir yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn dangos dealltwriaeth briodol o batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion ar frig yr ysgol bob amser yn ysgrifennu i safon sy'n cyfateb i'w gallu ac nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion hynaf ysgrifennu mewn ffurfiau amrywiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol yn gynyddol hyderus. Mae eu dealltwriaeth o rif yn datblygu'n gadarn. Er hynny, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth

ehangach o'r holl elfennau mathemategol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau digidol dros amser. Erbyn brig yr ysgol, mae'r disgyblion yn hyderus i ddefnyddio ystod o raglenni ac yn cydweithio â phartner yn llwyddiannus, er enghraifft wrth greu animeiddiad o ddameg y ddafad golledig er mwyn ei gyflwyno i'w cyfoedion ieuengaf.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu effeithiol yn llwyddiannus. Yn yr arfer orau, maent yn sicrhau cyflymder addas i'r dysgu ac yn cynnig adborth llafar pwrpasol sy'n cefnogi'r disgyblion i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. Maent yn cynnig cyfleoedd amserol i ddisgyblion ystyried ansawdd eu gwaith eu hunain ac, ar adegau, gwaith eu cyfoedion. Mae athrawon yn dechrau cynllunio ystod o weithgareddau sy'n darparu her briodol i fodloni anghenion dysgu'r disgyblion. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd a chyflawni hyd orau eu gallu bob tro.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda â'u tasgau ac yn dyfalbarhau'n ddiwyd wrth ddysgu fel unigolion, gyda phartner ac fel aelod o grŵp. Er enghraifft, wrth iddynt oresgyn anawsterau a datrys problemau'n effeithiol tra'n adeiladu lloches yn y goedwig. Gwneir defnydd effeithiol o holl adnoddau'r ysgol er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/03/2025